WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llywodraethu da wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**

Blwyddyn archwilio: 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 263A2017

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru – swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Paul Goodlad a Non Jenkins o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys

Yn gyffredinol, mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol a chynhwysol ar gyfer penderfynu sut i newid gwasanaethau.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

Adroddiad manwl

Yn gyffredinol, mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol a chynhwysol ar gyfer penderfynu sut i newid gwasanaethau 6

Mae gan y Cyngor weledigaeth a strategaeth glir ar gyfer penderfynu ar gynigion i newid gwasanaethau, ac mae ganddo amcanion clir y mae rhanddeiliaid yn dylanwadu arnynt 6

Mae'r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd sy'n cyd-fynd â'r prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch newid gwasanaethau wedi'u diffinio'n glir, ac mae dealltwriaeth dda ynghylch hynny 7

Mae'r arfarniadau o'r opsiynau wrth newid gwasanaethau yn ymddangos yn gynhwysfawr ac yn dryloyw, gan gadw cyfrinachedd pan fydd hynny'n briodol 8

Mae gan y Cyngor drefniadau clir sy'n annog rhanddeiliaid i fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau 10

Mae'r trefniadau i fonitro effaith penderfyniadau i newid gwasanaethau ar y cyfan yn effeithiol, ond nid yw rôl craffu yn y broses adolygu wedi'i diffinio'n glir 13

Mae'r Cyngor yn adolygu'n rheolaidd pa mor effeithiol yw ei drefniadau i wneud penderfyniadau 13

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Gellir diffinio llywodraethu fel y 'broses y bydd cyrff cyhoeddus yn ei defnyddio i wneud eu gwaith a rheoli adnoddau cyhoeddus'. Mae llywodraethu da yn golygu rheoli'r broses o lywodraethu heb gamddefnyddio'r broses honno mewn unrhyw ffordd, ac heb fod unrhyw lygredd yn gysylltiedig â hi, gan roi sylw dyledus i reol gyfreithiol.[1]

2 Mae llywodraethu da yn hanfodol er mwyn gofalu am arian cyhoeddus yn effeithiol ac er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon y gellir ymddiried ynddynt. Mae'r hinsawdd ariannol ar hyn o bryd ynghyd â'r setliadau is i lywodraeth leol a'r galw cynyddol am rai gwasanaethau yn golygu ei bod yn debygol y bydd pob cyngor yn gorfod parhau i wneud penderfyniadau am natur a lefel y gwasanaethau y mae'n eu darparu yn y dyfodol. Mae llywodraethu da yn hollbwysig wrth benderfynu sut i newid gwasanaethau. Mae penderfyniadau o'r fath yn aml yn ddadleuol, yn ennyn cryn ddiddordeb ymhlith y cyhoedd, ac yn gallu cael effaith sylweddol ar unigolion a grwpiau penodol.

3 O fis Ebrill 2016, rhaid i gynghorau gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r Canllawiau Statudol sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf. Mae'r Canllawiau Statudol yn datgan: 'Gyda'i gilydd, bwriedir i'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio a ddarperir gan y Ddeddf gefnogi a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.'[2] Mae'r ddeddfwriaeth yn pwysleisio pwysigrwydd llywodraethu effeithiol wrth gyflawni'r nodau llesiant a bydd yr adolygiad hwn yn rhoi man cychwyn i gynghorau wrth iddynt gynllunio sut i gryfhau eu trefniadau llywodraethu.

4 Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar ba mor effeithiol yw trefniadau llywodraethu Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor) ar gyfer penderfynu sut i newid gwasanaethau. Rydym yn diffinio newid gwasanaethau fel unrhyw newid sylweddol i'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu ac/neu unrhyw newid sylweddol i'r modd y bydd defnyddwyr gwasanaethau allanol yn profi'r gwasanaethau hynny. Gallai newid gynnwys, er enghraifft, sut y caiff gwasanaeth ei ddarparu, lefel y gwasanaeth a gaiff ei ddarparu, y gwasanaeth sydd ar gael a chost y gwasanaeth.

5 Gan ddefnyddio fframwaith diwygiedig y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) fel safon dderbyniol ('Delivering good governance in local government'), mae'r adolygiad hwn yn rhoi man cychwyn i'r Cyngor wrth iddo gynllunio sut i wella ymhellach. Yn ystod yr asesiad hwn, a gynhaliwyd rhwng mis

[1] CIPFA/SOLACE, **Delivering Good Governance in Local Government: Framework 2007**

[2] Llywodraeth Cymru**: Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol: Canllawiau Statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Medi a mis Tachwedd 2016, buom yn edrych ar amryw o gynigion pwysig i newid gwasanaethau ac yn asesu sut yr aeth y Cyngor ati i wneud penderfyniadau ynghylch y rheini.

6 Yn yr adroddiad hwn, ein casgliad cyffredinol yw bod gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol a chynhwysol ar gyfer penderfynu sut i newid gwasanaethau.

# Cynigion ar gyfer gwella

7 Byddai'n anarferol pe na baem yn canfod pethau y gellid eu gwella, a phan fyddwn yn gwneud hynny, gall yr Archwilydd Cyffredinol gymryd amryw o gamau. Yn yr achos hwn, mae cynnig ar gyfer gwella wedi'i wneud a byddem yn disgwyl i'r Cyngor gymryd camau i ymateb i hynny.

Arddangosyn 1: Cynnig ar gyfer gwella

| **Cynnig ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| P1 | Gellid cryfhau trefniadau llywodraethu'r Cyngor drwy ddiffinio'n benodol rôl Craffu wrth adolygu effaith newidiadau unigol i wasanaethau – a phan fydd hynny'n briodol, dylid ymgorffori hyn mewn Blaengynlluniau Gwaith. |

# Adroddiad manwl

## Yn gyffredinol, mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol a chynhwysol ar gyfer penderfynu sut i newid gwasanaethau

### Mae gan y Cyngor weledigaeth a strategaeth glir ar gyfer penderfynu ar gynigion i newid gwasanaethau, ac mae ganddo amcanion clir y mae rhanddeiliaid yn dylanwadu arnynt

8 Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor) fframwaith clir ar gyfer penderfynu ar gynigion i newid gwasanaethau yn unol â'i weledigaeth strategol. Sylweddolodd y Cyngor na fyddai dull graddol o wneud arbedion, sef yr hyn y dibynnai arno yn y gorffennol, yn gynaliadwy a bod angen rhaglen newid fwy pellgyrhaeddol arno. Arweiniodd hyn at ddatblygu Rhaglen Ail-lunio sy'n adlewyrchu sylwadau rhanddeiliaid ar ôl ymgynghori â hwy.

9 Mae gan y Cyngor hanes hir o gyhoeddi canlyniadau ei ymgynghoriadau a'i waith ymgysylltu[3]. Ar ôl 2011, esblygodd yr adroddiad gwreiddiol, 'Deall ein Cwsmeriaid', i'r adroddiad 'Rydym yn Gwrando', sy'n esbonio sut y mae'r Cyngor wedi ymateb i farn y cyhoedd. Mae'r sylwadau y mae'r Cyngor wedi'u casglu, yn enwedig ers 2013-14, wedi dylanwadu ar ei weledigaeth ar gyfer newid ac wedi rhoi'r sail i'r Rhaglen Ail-lunio.

10 Yn 2014-15, dechreuodd y Cyngor weithio â Phartner Ail-lunio, sefydliad a oedd â phrofiad o ddatblygu dulliau tebyg o weithio mewn mannau eraill, er mwyn cyflymu'r broses newid a helpu i ddatblygu'r Rhaglen Ail-lunio. Mae'r Rhaglen yn adlewyrchu pedair o Egwyddorion Ail-lunio, sydd ar y cyd yn cael eu galw yn Fodel Gweithredu, ac mae'r rhain yn rhoi sylw i'r canlynol:

- rheoli cwsmeriaid: sicrhau bod gan bobl y sgiliau iawn a'r wybodaeth iawn i'w rhoi i gwsmeriaid sy'n cysylltu â'r Cyngor;
- darparu gwasanaethau: sicrhau bod y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn rhai o ansawdd da;
- cymorth corfforaethol: sicrhau bod y Cyngor yn gweithio'n effeithlon i gyflawni'r un canlyniad neu ganlyniad gwell; ac
- y craidd strategol: sicrhau bod yr adrannau canolog sy'n cynorthwyo'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau yn parhau'n addas i anghenion y sefydliad wrth iddo esblygu.

11 Mae'r Rhaglen Ail-lunio bellach yn helpu'r Cyngor i wella effeithlonrwydd ac ail-lunio gwasanaethau, a hynny ar ôl cynnal adolygiadau sylfaenol o'r gwasanaethau

[3] **Canlyniadau ymgynghoriadau corfforaethol a phrosiectau ymgysylltu mawr y Cyngor ers 2005**.

y mae'r Cyngor yn eu darparu a'r gwaith sy'n cael ei wneud yn gefn i hynny. Mae'r Rhaglen Ail-lunio yn canolbwyntio ar wella gwasanaethau a lleihau costau ill dau, a hynny er mwyn gweithio'n fwy effeithlon ac effeithiol. Mae canlyniadau yr adolygiadau mewnol yn cynnwys cynigion i flaenoriaethu gwasanaethau o'r newydd, cynigion i leihau neu i roi'r gorau i ddarparu rhai gwasanaethau, cynigion i ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol, a chynigion i weithio'n fwy effeithiol â sefydliadau eraill.

12 Mae'r amcanion ar gyfer y cynigion i newid gwasanaethau sy'n deillio o'r adolygiadau mewnol yn ddigon clir a dealladwy. Lle mae hynny'n briodol, caiff yr amcanion eu mireinio cyn gwneud y penderfyniad terfynol a bwrw ymlaen i weithredu. Mae'r Rhaglen Ail-lunio yn cynnwys trefniadau trylwyr ar gyfer herio drwy graffu, a hynny wrth edrych ar ba mor dda y mae pob gwaith gwasanaeth yn cyd-fynd â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, yn ogystal ag edrych ar y trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau.

13 Mae'r Cyngor yn un o 11 awdurdod lleol sy'n gweithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i roi ar waith yn gynnar ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae hyn yn gymorth i gryfhau statws y Ddeddf yn y Cyngor ac i sicrhau bod y penderfyniadau ynghylch newid gwasanaethau yn rhoi sylw cynyddol i amcanion llesiant y Cyngor a'r egwyddorion datblygu cynaliadwy.

## Mae'r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd sy'n cyd-fynd â'r prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch newid gwasanaethau wedi'u diffinio'n glir, ac mae dealltwriaeth dda ynghylch hynny

14 Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau aelodau a swyddogion wrth wneud penderfyniadau ynghylch newid gwasanaethau yn glir, ac mae dealltwriaeth dda ynghylch hynny. Mae canllawiau'r Rhaglen Ail-lunio yn dangos sut y mae'r Cyngor yn bwriadu mynd ati i newid gwasanaethau ac mae'n adlewyrchu'r trefniadau cyffredinol ar gyfer gwneud penderfyniadau sydd yng Nghyfansoddiad y Cyngor ac yn y Cod Llywodraethu Corfforaethol.

15 Mae'r Cyfansoddiad a'r Cod Llywodraethu Corfforaethol yn rhoi disgrifiadau swyddi clir i aelodau etholedig yn ogystal â threfniadau tryloyw ar gyfer gwneud penderfyniadau sydd wedi'u dirprwyo. Mae aelodau a swyddogion yn dweud bod yr eglurder hwn, gyda chymorth Cod Ymddygiad yr Aelodau, yn help i wella ymwybyddiaeth ynghylch swyddogaethau a chyfrifoldebau.

16 Mae gan y Cyngor hefyd drefniadau cadarn i sicrhau bod unrhyw gynigion ar gyfer newid gwasanaethau yn cydymffurfio â gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol, fel Rheolau Sefydlog a Rheolau Gweithdrefnau Contract. Er enghraifft, mae Bwrdd y Rhaglen Ail-lunio, sy'n cynnwys aelodau o'r uwch dîm arwain, yn bwrw golwg ar gynigion drafft er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio.

17 Mae Cynllun y Cyngor 2016-17 (y Cynllun) yn esbonio ar beth y mae'r Cyngor yn bwriadu canolbwyntio wrth ddefnyddio egni ac adnoddau, gan nodi sut y mae'n bwriadu cyfrannu at Strategaeth Gymunedol ehangach y sir. Mae'r Cynllun hefyd yn pwysleisio ymrwymiad y Cyngor i gydraddoldeb ac amrywiaeth wrth iddo gynllunio a gwneud newidiadau '...i ail-lunio gwasanaethau er mwyn goresgyn yr her ariannol ddigynsail sydd o'n blaenau a blaenoriaethu'r rhai mwyaf diamddiffyn'. Mae'r Cynllun yn mynegi'r ymrwymiad hwn fel un o bedair elfen allweddol yn niwylliant y Cyngor, lle mae 'dinasyddion, cwsmeriaid a chydraddoldeb yn ganolbwynt i'n holl ymdrechion' a thrwy'r Model Gweithredu, sy'n rhoi'r fframwaith ar gyfer ystyried a ddylid newid gwasanaethau.

18 Mae gan y Cyngor drefniadau cynhwysfawr i hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth ac i wreiddio hwnnw yn ei waith, a gwneir hyn gyda chymorth tîm Amrywiaeth Cymunedol a phrif swyddog ac aelod o'r Bwrdd Gweithredol sy'n hyrwyddo'r maes. Er y newidiadau a wnaed eisoes i brif ffrydio cydraddoldeb, amrywiaeth a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, nid yw'r Cyngor yn llaesu dwylo. Mae'n cydnabod bod angen parhau i fireinio a chryfhau yn hyn o beth, yn enwedig wrth iddo gyflwyno newidiadau i'r modd y mae'r Cyngor yn darparu rhai gwasanaethau. Er enghraifft, mae adolygiad diweddaraf y Cyngor o'i Gynllun Cydraddoldeb Strategol yn esbonio sut y mae'r Cyngor wedi cyflawni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae'r adolygiad hefyd yn canfod cyfleoedd i gryfhau'r modd y mae'r Cyngor yn cyflawni'r ddyletswydd hon, drwy wella ansawdd yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb y mae'n eu cynnal, er enghraifft, a rhoi hyfforddiant cydraddoldeb wedi'i dargedu i bob pwyllgor craffu.

## Mae'r arfarniadau o'r opsiynau wrth newid gwasanaethau yn ymddangos yn gynhwysfawr ac yn dryloyw, gan gadw cyfrinachedd pan fydd hynny'n briodol

19 Wrth newid gwasanaethau, bydd y Cyngor yn dechrau drwy adolygu'r opsiynau posibl, gan fynd ati i greu rhestr fer yn unol ag amryw o feini prawf, cyn dadansoddi'r opsiynau yn ffurfiol. Mae Cod Ymarfer y Cyngor ar gyfer Rheoli Prosiectau yn rhoi canllawiau i swyddogion ynghylch sut i ddatblygu cynigion sy'n cynnwys amrediad o opsiynau. Ceir llawlyfr rheoli prosiectau sy'n rhoi canllawiau i swyddogion ar gyfer gwerthuso opsiynau, gan gynnwys rhagamcaniadau cost a'r goblygiadau o ran adnoddau.
Mae'r canllawiau hyn yn gymorth i ddadansoddi opsiynau mewn ffordd gyson.

20 Mae'r Cyngor yn defnyddio meini prawf cynhwysfawr i arfarnu cynigion ar gyfer newid gwasanaethau, a hynny gan ddefnyddio 'templed sgorio cyfleoedd'[4]. Mae'r

[4] Mae'r matrics sgorio cyfleoedd yn pwysoli pob un o'r meini prawf yn ôl ei bwysigrwydd i'r Cyngor ac fel arfer mae'n rhoi sylw i arbedion ariannol; yr amserlen ar gyfer gweithredu; yr effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau; i ba raddau mae'r cynnig yn cyd-fynd â'r egwyddorion ail-lunio; a'r capasiti a'r gallu i gyflawni.

matrics a geir drwy wneud hynny yn rhoi dull cyson o sgorio a blaenoriaethu cyfleoedd ac mae'n sicrhau bod modd herio pethau'n gadarn yn fewnol. Mae’n helpu’r Cyngor hefyd i sicrhau bod y rhestr fer derfynol o gyfleoedd yn rhai go iawn, bod modd eu cyflawni, a'u bod yn cyd-fynd â chyfeiriad strategol cyffredinol y Cyngor. Mae trefniadau llywodraethu’r Rhaglen Ail-lunio yn cynnwys Bwrdd Llywodraethu sy’n sicrhau bod y meini prawf a ddefnyddir i arfarnu cynigion unigol ar gyfer newid gwasanaethau yn addas.

21 Mae’r dadansoddiad o’r cynigion i newid gwasanaethau yn rhoi sylw i farn rhanddeiliaid. Barn yw hon a gaiff ei chasglu fel rhan o drefniadau ymgynghori ac ymgysylltu'r Cyngor. Mae’r Cyngor yn rhoi cyfleoedd i randdeiliaid ddylanwadau ar gynigion i newid gwasanaethau drwy geisio barn yn gynnar yn y broses. Pan fydd hynny’n briodol, dilynir hyn gan waith mwy manwl i geisio barn wrth i’r cynigion gael eu mireinio.

22 Er enghraifft, ddiwedd 2014, holodd arolwg Sgyrsiau Anodd y Cyngor[5] am farn rhanddeiliaid am gynigion a oedd â’r nod o arbed £11 miliwn o gyllideb 2015-16. Ailadroddodd y Cyngor y broses ymgynghori Penderfyniadau Anodd ddiwedd 2015, gan ei hehangu i gasglu sylwadau am y Rhaglen Ail-lunio a oedd wrthi’n cael ei datblygu ac, yn benodol, i roi sail i benderfyniadau y byddai'n rhaid i gwneud i ganfod tua £45 miliwn o arbedion dros y tair blynedd ddilynol.

23 Mae’r Cyngor yn hyrwyddo proses effeithiol o wneud penderfyniadau drwy roi gwybodaeth berthnasol i’r rheini sy’n gwneud penderfyniadau am bob un o’r opsiynau hyn. Rhoddir gwybodaeth fanylach wrth i'r cynigion ddatblygu o fod yn amlinelliad i fod yn achos busnes ffurfiol.

24 Yn ogystal â threfniadau ffurfiol y Cyngor ar gyfer pwyllgorau craffu, mae gan swyddogion ar lefel gorfforaethol a lefel adrannol gyfleoedd i herio a chraffu ar gynigion a rhoi sylwadau ar yr arfarniadau o’r opsiynau. Mae’r Cyngor hefyd wedi elwa o brofiad ehangach ei bartner ail-lunio wrth newid gwasanaethau; roedd y berthynas weithio yn cynnwys herio adeiladol rhwng y naill ochr a’r llall ac yn gymorth i gynnal momentwm y Rhaglen Ail-lunio.

25 Roedd y penderfyniadau ynghylch cynigion i newid gwasanaethau a gafodd eu hadolygu gennym yn dryloyw ac wedi'u cofnodi'n iawn yng nghofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol a’r Cyngor. Mae’r Cyfansoddiad yn nodi’r gweithdrefnau sydd i’w dilyn er mwyn sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol a rhanddeiliaid eraill. Mae’r trefniadau hyn yn cynnwys dulliau agored ac effeithiol o gofnodi tystiolaeth sy’n sail

[5] Cafodd arolwg Penderfyniadau Anodd 2015 ymatebion gan dros 1,700 o randdeiliaid. Rhoddwyd gwybod i’r rhain bod yr ymgynghoriad yn cynnwys cynigion cychwynnol ar gyfer arbed arian a chreu incwm. Nodwyd mai cynigion cychwynnol a chynnar yn unig oeddent, a bod y Cyngor yn awyddus i glywed barn pobl amdanynt cyn bwrw ymlaen ymhellach.

i benderfyniadau, gan gofnodi'r meini prawf, y rhesymeg a'r ystyriaethau a ddefnyddir wrth wneud y penderfyniadau hynny.

26 Mae'r Cyngor yn ceisio cydbwyso'r angen i fod yn dryloyw ac agored â'r angen i gadw cyfrinachedd. Er enghraifft, caiff polisi a phenderfyniadau'r Cyngor eu gwneud mewn cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd, oni bai y trafodir materion sydd wedi'u heithrio neu faterion cyfrinachol.

27 Ar y cyfan, mae'r cyhoedd yn gallu gweld dogfennau'n hwylus, ond ar brydiau nid yw hyperddolenni i ddogfennau ategol yn gweithio mewn nifer bychan o adroddiadau, ac mae hyn yn cyfyngu ar yr hyn y gall y cyhoedd ei weld. Mae'r Cyngor wedi cydnabod y gwendid hwn ac yn ddiweddar wedi cyflwyno proses fwy cadarn ar gyfer gwirio adroddiadau. Dylai hyn sicrhau bod modd i randdeiliaid mewnol ac allanol ill dau weld pob dogfen y cyfeirir ati mewn adroddiadau cyhoeddus.

28 Mae'r Cyngor yn rhoi sylw penodol i egwyddorion datblygu cynaliadwy wrth ddadansoddi'r opsiynau ar gyfer newid gwasanaethau. Fodd bynnag, fel Cyngor sydd wedi mabwysiadu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gynnar, mae'r Cyngor yn cydnabod bod llawer iawn i'w ddysgu yn hyn o beth, fel yn achos yr holl gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru y mae'r Ddeddf yn berthnasol iddynt. Mae hyn yn golygu y bydd angen i'r Cyngor barhau i fireinio'i ddull o weithio yn y maes hwn tan y bydd ei drefniadau i hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn gwbl effeithiol. Er enghraifft, mae'r cynllun gweithredu diweddaraf o dan y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cynnwys camau i integreiddio ymhellach ystyriaethau sy'n ymwneud â llesiant cymdeithasol ac amgylcheddol yn y broses o wneud penderfyniadau strategol.

## Mae gan y Cyngor drefniadau clir sy'n annog rhanddeiliaid i fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau

29 Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol i geisio barn rhanddeiliaid ac i roi gwybod iddynt am y broses o wneud penderfyniadau ynghylch cynigion i newid gwasanaethau a'r goblygiadau posibl. Er enghraifft, yn ogystal â gweithdai ymgysylltu ar gyfer staff ac aelodau'r Cyngor, mae'r Cyngor wedi ceisio ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol. Yn ystod ymgynghoriad Penderfyniadau Anodd 2016-17, ceisiwyd barn amrediad o randdeiliaid gan gynnwys cynghorwyr tref a chymuned, y fforwm tenantiaid, Fforwm Dros-50 Wrecsam, y Grŵp Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Fforwm Amrywiaeth, cynrychiolwyr o Senedd yr Ifanc[6] a phobl ifanc drwy weithdai mewn ysgolion a chyda grwpiau ieuenctid.

[6] Mae gan Senedd yr Ifanc yn Wrecsam 70 o bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed sydd wedi'u hethol gan eu cyfoedion i gynrychioli grŵp neu brosiect. Mae'r Senedd yn gweithio ar faterion sy'n berthnasol i'r holl sir ac sy'n effeithio ar bobl ifanc Wrecsam. Mae'r Senedd yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn yn Siambrau'r Cyngor yn Neuadd y Dref.

30 Mae’r Cyngor hefyd wedi sefydlu Grŵp Cydraddoldeb Ail-lunio Gwasanaethau er mwyn helpu’r gwaith o ddatblygu cynigion sy’n debygol o effeithio ar randdeiliaid allanol. Mae’r Grŵp yn rhoi cymorth i swyddogion sy'n cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac yn annog cysylltiadau cryfach rhwng adrannau ac unigolion a chymunedau sydd â nodweddion gwarchodedig. Yn ystod 2015-16, rhoddodd y Grŵp gymorth yn ystod y gwaith o ddatblygu 11 o gynigion i newid gwasanaethau.

31 Mae’r Cyngor hefyd wedi ceisio barn grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau er mwyn edrych ar gynigion unigol i newid gwasanaethau mewn rhagor o fanylder. Er enghraifft, mae wedi ceisio barn defnyddwyr gwasanaethau presennol a darpar ddefnyddwyr gwasanaethau wrth edrych ar oblygiadau newid y cynllun Teleofal.[7]

32 Cymysg fu llwyddiant y Cyngor wrth ymwneud â rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Yn gynnar yn y broses, roedd rhai rhanddeiliaid yn pryderu am y diffyg manylion penodol ynghylch rhai cynigion i newid gwasanaethau, ac roedd hynny’n ei gwneud yn anodd iddynt roi sylwadau ystyrlon ac i herio’r cynigion hynny. Mae’r Cyngor wedi rhoi sylw i’r pryderon hyn drwy roi mwy o fanylion wrth i gynigion unigol ddatblygu o fod yn gysyniadau gwreiddiol i fod yn achosion busnes manwl.

33 Yn ogystal ag ymgynghori'n gyffredinol ynghylch yr holl gynigion i newid gwasanaethau, mae'r Cyngor hefyd yn trefnu rhagor o ymgynghori ynghylch cynigion penodol. Mae dogfen Penderfyniadau Anodd y Cyngor yn rhoi gwybod i randdeiliaid y bydd ymgynghoriadau manylach yn cael eu cynnal ymhlith defnyddwyr gwasanaethau ar gyfer rhai o’r cynigion, ac y bydd hynny hefyd yn cyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau. Mae hyn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i randdeiliaid ynghylch cyfleoedd yn y dyfodol i roi sylwadau ac/neu i ddylanwadu ar natur newidiadau i wasanaethau.

34 Mae pob adroddiad y bydd y Cyngor, y Bwrdd Gweithredol a'r pwyllgorau cysylltiedig, ynghyd â chofnodion y penderfyniadau a wneir, ar gael ar wefan y Cyngor, oni bai eu bod yn gyfrinachol. Mae holl gyfarfodydd y Cyngor, y Bwrdd Gweithredol a’r Pwyllgor Cynllunio yn cael eu gweddarlledu ar ffurf digwyddiadau byw a rhai sydd wedi'u recordio. Mae hyn yn gymorth i atgyfnerthu tryloywder ac atebolrwydd y Cyngor wrth wneud penderfyniadau ymhlith rhanddeiliaid nad ydynt yn gallu mynd i gyfarfodydd eu hunain. Er bod cyfyngiadau o ran capasiti yn rhwystro’r Cyngor rhag gweddarlledu cyfarfodydd craffu, mae’r Cyngor yn edrych ar y cyfleoedd i gynnwys cyfarfodydd pwyllgor yn y deunydd sydd ar gael ar-lein yn y dyfodol.

35 Mae fformat gwefan y Cyngor ar y cyfan yn galluogi’r rheini sydd â diddordeb i ganfod y wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus am newidiadau i wasanaethau. Mae dogfennau sy’n berthnasol i benderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud, ac

[7] Teleofal: gwasanaeth sy’n cael ei gynnig i bobl sy’n agored i niwed, gan gynnwys pobl hŷn, oedolion a phlant sydd ag anableddau corfforol, anableddau dysgu neu anghenion iechyd meddwl neu gyflyrau iechyd hirdymor. Mae’n rhoi cyswllt ffôn 24 awr, 7 niwrnod yr wythnos rhwng defnyddwyr y gwasanaeth a chanolfan ymateb, a hynny drwy larwm yn y cartref a nifer o synwyryddion, ac mae modd ymateb drwy ddod i’r cartref.

eithrio'r rheini sy'n cynnwys manylion sensitif neu fanylion sy'n gyfrinachol yn fasnachol, ar gael i'w gweld ac ar y cyfan cyfeirir atynt yn dda.

36 Yn ystod 2015-16, mae'r Cyngor wedi cymryd camau i integreiddio'i flaengynlluniau gwaith yn well ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol, cyfarfodydd craffu a chyfarfodydd y Cyngor. Mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd hyn yn gwella'r modd y caiff agendâu pwyllgorau eu cydlynu ac yn osgoi oedi diangen i'r Rhaglen Ail-lunio ac wrth wneud penderfyniadau yn fwy cyffredinol. Mae camau sy'n symleiddio prosesau'r Cyngor ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan gadw trefniadau llywodraethu cadarn ar yr un pryd, yn helpu'r Cyngor i gyflwyno newidiadau i wasanaethau yn gyflym ac i wireddu manteision disgwyliedig y newidiadau cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn dweud iddo gyflawni 98% o'r arbedion y bwriadai eu gwneud yn ystod y flwyddyn yn 2015-16, ac mae'n disgwyl cyrraedd ei holl dargedau ar gyfer arbedion yn 2016-17.

37 Mae'r dystiolaeth o'n gwaith maes yn awgrymu bod y cyfrifoldeb a'r atebolrwydd dros benderfyniadau sy'n ymwneud â newid gwasanaethau ar y cyfan yn glir, yn enwedig i randdeiliaid mewnol. Mae'r Cyngor yn defnyddio amryw o ddulliau i esbonio'r broses o wneud penderfyniadau i randdeiliaid, gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd pwyllgor, i'w helpu i ddeall pwy sy'n gyfrifol ac yn atebol. Er enghraifft, mae'r Bwletin Dydd Gwener ('Pethau y dylech eu gwybod') yn helpu i wella ymwybyddiaeth y staff am gynigion a newidiadau sydd ar y gweill. Mae cymorth strwythuredig a mwy ffurfiol drwy'r model partner busnes Adnoddau Dynol yn atgyfnerthu'r dulliau anffurfiol o wella ymwybyddiaeth y staff.

38 Mae'r Cyngor hefyd yn rhoi adborth i randdeiliaid allanol, gan esbonio sut y mae eu sylwadau wedi dylanwadu ar benderfyniadau, neu pan nad oedd popeth a awgrymodd y cyhoedd yn bosibl. Mae adroddiad 'Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni' y Cyngor, sydd ar gael ar-lein, yn rhoi gwybod am y penderfyniadau terfynol a wnaed ynghylch pob cynnig a gyflwynwyd wrth ymgynghori.

## Mae'r trefniadau i fonitro effaith penderfyniadau i newid gwasanaethau ar y cyfan yn effeithiol, ond nid yw rôl craffu yn y broses adolygu wedi'i diffinio'n glir

39 Mae'r Cyngor yn canfod yn rheolaidd yr hyn y mae angen iddo'i wneud i fonitro a gwerthuso er mwyn deall effaith ei benderfyniadau. Mae achosion busnes ar gyfer newid gwasanaethau yn esbonio'r trefniadau ar gyfer monitro effaith penderfyniadau i newid gwasanaethau.
Mae hyn yn rhoi sylw i sut y mae'r Cyngor yn bwriadu monitro llwyddiant, ac yn cynnwys meini prawf penodol ar gyfer hynny sy'n addas ac yn gymesur i'r newid unigol dan sylw.

40 Mae'r broses fonitro yn adlewyrchu egwyddorion rheoli prosiectau ffurfiol ac yn cynnwys 'traciwr manteision' sy'n helpu i wreiddio'r egwyddorion hynny.
Mae Bwrdd y Rhaglen a'r uwch dîm arwain yn cael adroddiadau cynnydd (sy'n cael eu galw'n Uchafbwyntiau Ail-lunio) yn rheolaidd wrth i newidiadau gael eu rhoi ar waith. Pan fydd hynny'n briodol, mae'r Cyngor yn datblygu ac yn rhoi ar waith gynlluniau pontio cynhwysfawr, sy'n cael eu datblygu gyda chymorth rhanddeiliaid pwysig. Nod hyn yw sicrhau parhad wrth ddarparu gwasanaethau a lleihau cymaint ag y bo modd unrhyw effaith dros dro ar ddefnyddwyr gwasanaethau.

41 Mae adroddiadau'r Cabinet a'r Cyngor yn esbonio sut y bydd arbedion ariannol yn cael eu monitro a'u cofnodi. Mae trefniadau cyffredinol y Cyngor ar gyfer cynllunio, monitro ac adrodd am faterion ariannol yn gynhwysfawr ac yn gadarn. Mae hyn yn adlewyrchu'r trefniadau ar gyfer arbed arian yn sgil newidiadau i wasanaethau.
Er enghraifft, mae Partneriaid Busnes Cyllid a Rheolwyr Gwasanaethau perthnasol yn gyfrifol am fonitro'r effaith a'r canlyniadau o safbwynt ariannol.

42 Mae pwyllgorau craffu yn dilyn protocolau clir i gytuno ar y pynciau i graffu arnynt, ac mae blaenraglen waith y Bwrdd Gweithredol yn aml yn dylanwadu ar hynny. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn dynodi'n rheolaidd ac yn systematig sut a pha bryd y dylai pwyllgorau craffu adolygu effaith newidiadau i wasanaethau.
Y rhagdybiaeth sydd ymhlyg yn hyn yw y bydd pwyllgorau yn adolygu effaith newidiadau i wasanaethau fel rhan o'r broses graffu arferol. Gallai dull mwy strwythuredig o graffu ar effaith newidiadau, ac yn enwedig yr effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau, helpu'r Cyngor i ganfod a rhoi sylw i unrhyw ddiffygion o ran perfformiad, i elwa ar fanteision na chafodd eu rhagweld, neu i roi sylw i unrhyw effeithiau na fwriadwyd.

## Mae'r Cyngor yn adolygu'n rheolaidd pa mor effeithiol yw ei drefniadau i wneud penderfyniadau

43 Mae'r Cyngor yn adolygu'n rheolaidd pa mor effeithiol yw ei drefniadau i wneud penderfyniadau, gyda'r swyddogion sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y gwaith llywodraethu ac adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn gyrru hynny yn ei flaen.

Mae’r adolygiad yn rhoi sylw i bob maes gwaith, ac nid penderfyniadau sy'n ymwneud â newid gwasanaethau yn unig. Mae’r adolygiad hefyd yn rhoi sylw i adborth gan yr archwilydd allanol ac asiantaethau ac arolygiaethau eraill sy’n cynnal adolygiadau.

44 Mae’r Cyngor hefyd yn rhagweld problemau posibl ac yn rhoi sylw i hynny fel rhan o'i drefniadau i wneud penderfyniadau. Mae’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol diweddaraf yn cynnwys cam gweithredu i sicrhau bod y fframwaith llywodraethu yn parhau’n effeithiol ac nad yw’r Rhaglen yn effeithio’n niweidiol arno.

45 Mae Grŵp Rheoli Risg y Cyngor yn adolygu prosesau’n rheolaidd er mwyn canfod, cofnodi a monitro risgiau, gan gynnwys adolygu'r prif gofrestr risg yn flynyddol. Mae gwaith strategol yr Uwch Dîm Rheoli hefyd yn rhoi cyfle i ganfod risgiau posibl o bwys neu rai sy’n datblygu. Ar lefel prosiectau penodol, mae llawlyfr rheoli prosiectau'r Cyngor yn rhoi canllawiau i swyddogion ynghylch rheoli risg yn ystod y gwaith o ddatblygu prosiectau a'u rhoi ar waith.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru